



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Tendro Cystadleuol a Chaffael Cyhoeddus

## Nodiadau Canllaw Technegol

Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop  
2014-2020

Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru -  
Rhaglen Datblygu Gwledig  
2014-2020



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar  
gyfer Datblygu Gwledig  
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig  
European Agricultural Fund for  
Rural Development  
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## CYNNWYS

	<b>Tudalen</b>
<b>Adran 1: Cyflwyniad:</b>	
1.1 Noddwr y prosiect	<b>3</b>
1.2 Gwaith Prosiect	<b>3</b>
1.3 Cyfarwydebau Caffael	<b>3</b>
1.4 Caffael Cyhoeddus neu Tendro Cystadleuol	<b>3</b>
1.5 GwerthwchiGymru	<b>4</b>
<b>Adran 2: Tendro Cystadleuol</b>	
2.1 2.1. Prif bwyntiau	<b>4</b>
2.2 Cystadleuaeth Agored	<b>4</b>
2.3 Cyflenwyr	<b>5</b>
2.4 Gwrthdaro Buddiannau	<b>5</b>
2.5 Dyfynbrisiau	<b>5</b>
2.6 Y Broses Ddethol	<b>6</b>
2.7 Dogfennau	<b>6</b>
<b>Adran 3: Cywiriadau a Sanctsiynau</b>	
3.1 Gwiriadau Gweinyddol	<b>6</b>
3.2 Rheoli yn y Fan a'r Lle	<b>6</b>
<b>Adran 4: Caffael Cyhoeddus</b>	
4.1 Yn is na throthwy Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd	<b>7</b>
4.2 Yn uwch na throthwy Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd	<b>7</b>
<b>Atodiad A - Cyfarwydebau Caffael</b>	<b>9</b>

## **Adran 1: Cyflwyniad**

### **1.1 Noddwr y Prosiect**

Gall Noddwr y Prosiect fod yn fenter fasnachol breifat, y sector cyhoeddus, neu sector trydydd parti.

Nod y ddogfen hon yw rhoi arweiniad ar y gweithdrefnau tendro cystadleuol a chaffael cyhoeddus sydd angen eu dilyn, wrth gyflwyno datganiad o ddiddordeb, cais llawn neu cais am gyllid o dan y Rhaglenni Ewropeaidd canlynol:

- Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD)
- Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF)

### **1.2 Gwaith Prosiect**

Mae 'gwaith' Prosiect yn golygu canlyniad gwaith adeiladu neu beirianeg sifil cyfan sy'n ddigon ohono ei hun i gyflawni swyddogaeth economaidd neu dechnegol.

### **1.3 Cyfarwyddebau Caffael**

Mae caffael cyhoeddus yn y DU a gweddill yr Undeb Ewropeaidd yn cael ei lywodraethu gan nifer o Gyfarwyddebau a Rheoliadau sy'n cael eu gweithredu yn y ddeddfwriaeth genedlaethol. Mae'r tabl yn [Atodiad A](#) yn rhestru'r Cyfarwyddebau a'r Rheoliadau perthnasol yn y DU sy'n eu gwneud yn ofyniad cyfreithiol yn y DU.

### **1.4 Caffael Cyhoeddus neu Tendro Cystadleuol**

Mae Cyfarwyddebau Caffael y Gymuned Ewropeaidd yn berthnasol i contractau a gyllidir neu a gyllidir yn rhannol gan Gronfeydd yr UE. Mae'r rheolau caffael llawn yn berthnasol i bob corff cyhoeddus a menter fasnachol yn y sector preifat sy'n derbyn cymorth grant o 50% neu fwy o gyfanswm costau'r prosiect, ac eithrio TAW.

**[Gweler Adran 4 am ganllawiau llawn ar Gaffael Cyhoeddus.](#)**

Os nad yw'r rheolau caffael cyhoeddus yn berthnasol ichi, bydd rhaid ichi ddilyn y broses Tendro Cystadleuol.

**[Gweler Adran 2 am ganllawiau llawn ar Dendro Cystadleuol](#)**

### **1.5 GwerthwchiGymru**

Mae GwerthwchiGymru ar gyfer prynwyr y Sector Cyhoeddus yn bennaf, fodd bynnag gall unrhyw Noddwr Prosiect sy'n derbyn llythyr cymeradwyo i gadarnhau cyllid o dan y Rhaglenni Ewropeaidd (EAFRD a EMFF) ddefnyddio GwerthwchiGymru hefyd.

Mae manylion llawn am y gwasanaethau sydd ar gael a sut i gofrestru ar GwerthwchiGymru ar gael ar eu [gwefan](http://www.gwerthwchigymru.llyw.cymru). ([www.gwerthwchigymru.llyw.cymru](http://www.gwerthwchigymru.llyw.cymru))

## Adran 2 - Tendro Cystadleuol

### 2.1 Mae tri nod cyffredinol i dendro cystadleuol:

- Dangos tegwch er mwyn i gyflenwyr wneud cyfraniad at weithgareddau buddsoddi sy'n cael eu cyllido gan yr UE
- Gwella gallu cystadleuol cyflenwyr
- Dangos costau prosiect rhesymol

Rhaid ichi ddangos eich bod wedi defnyddio arferion teg ac agored drwy ddefnyddio ymarfer tendro cystadleuol ar gyfer yr holl nwyddau a'r gwasanaethau sydd i'w cynnwys yn y prosiect rydych yn bwriadu hawlio cymorth grant ar ei gyfer.

Mae'n rhaid cynnal y gofynion tendro cystadleuol cywir ac mae'n rhaid cynnwys yr amser sydd ei angen i wneud hyn o fewn y cynllun darparu prosiect.

Mae'r trothwy ar gyfer gwerth y nwyddau neu'r gwasanaethau yn cael eu penderfynu gan **bris terfynol yr anfoneb** yn hytrach na'r gwerth cychwynnol a roddwyd mewn amcangyfrif neu ddyfynbris (heb TAW).

Er enghraifft, mae'r dyfynbris yn £4,990 ond swm yr anfoneb yw £5,020, yna rhaid cael **o leiaf 3 dyfynbris ysgrifenedig**

**Rhaid** dilyn y gofynion tendro cystadleuol a ganlyn, yn unol â chyfanswm gwerth y nwyddau neu'r gwasanaethau a brynir, **heb gynnwys TAW.**

<b>Gwerth Terfynol i'w brynu (heb TAW)</b>	<b>Gofyniad Tendro Cystadleuol</b>	<b>Cam Gweithredu</b>
Llai na £5,000 (pris terfynol yr anfoneb)	Un dyfynbris ysgrifenedig	Argymhellir defnyddio cyflenwyr sydd wedi cofrestru ar <a href="http://www.gwerthwchigymru.gov.wales">www.gwerthwchigymru.gov.wales</a>
£5,000 neu fwy (pris anfoneb terfynol)	O leiaf tri dyfynbris ysgrifenedig	Argymhellir defnyddio cyflenwyr sydd wedi cofrestru ar <a href="http://www.gwerthwchigymru.gov.wales">www.gwerthwchigymru.gov.wales</a>

### 2.2 Cystadleuaeth Agored

Mae'n rhaid ichi sefydlu proses sy'n asesu rhagoriaethau'r dyfynbrisiau yn ddi-duedd: (achos busnes, gydag amcangyfrif ymlaen llaw gwirioneddol o gost ac angen). Ni ddylech wahaniaethu wrth ddisgrifio'r contract; nid yw'n bosibl cyfeirio at frand penodol, cymhwyster, tystysgrif, tarddiad penodol neu farc masnach.

Mae'n rhaid ichi egluro y bydd rhywbeth sy'n cyfateb yr un mor ddilys. Mae'n rhaid ichi sicrhau nad oes gwahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol o ran cynigwyr o Aelod Wladwriaethau eraill.

Mae'n rhaid darparu'r holl wybodaeth ymlaen llaw, gan gynnwys amcangyfrif o werth ble yn bosibl, yn y cyfarwyddiadau i gynigwyr / manyleb / hysbyseb / hysbysiad

contract. Rhaid ichi ddarparu'r un wybodaeth fel bod pawb sydd â diddordeb yn cael yr un cyfle i gynnig am y contract.

### 2.3 Cyflenwyr

Mae'n **rhaid** darparu tystiolaeth sy'n dangos pa gyflenwyr y gofynnwyd iddynt gynnig dyfynbris; mae'n rhaid i hwn gynnwys y dyddiad y cysylltwyd â hwy ac at bwy yn y cwmni yr anfonwyd yr ymholiad atynt.

Mae'n **rhaid** i ddogfennau y dyfynbris gynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol er mwyn adnabod y cyflenwr gan gynnwys cyfeiriad, manylion cyswllt a Rhif Cofrestru'r Cwmni (Rhif TAW os yn berthnasol).

Nid oes modd rhannu pris eitem a gaiff ei gaffael gan y cyflenwr yn elfennau llai er mwyn osgoi defnyddio'r gofyniad tendro cystadleuol cywir.

Nid oes modd rhannu contract y cytunwyd arno neu ddyfynbris a gyflwynwyd a thynnu eitemau unigol allan o'r contract neu allan o'r dyfynbris i'w darparu ar wahân. Byddai hyn yn bryniant newydd a byddai'n **rhaid** defnyddio'r gofynion tendro unwaith eto.

### 2.4. Gwrthdaro Buddiannau

Os y gwelir bod unrhyw wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu dybiedig rhyngoch chi a'r cyflenwyr sy'n cael cais i ddarparu dyfynbrisiau - er enghraifft cael dyfynbrisiau gan gwmnïau cysylltiedig, **mae'n rhaid ichi egluro hyn yn nogfennau atodol y tendro cystadleuol. Os bydd gwrthdaro posibl yn bodoli, rhaid cymryd camau lliniarol a'u cofnodi.**

### 2.5 Dyfynbrisiau

Bydd yn rhaid cael isafwm o dri dyfynbris pan fydd y pryniant yn £5000 neu fwy. Dim ond un dyfynbris sydd ei angen pan fydd y pryniant o dan £5,000.

Mae'n bosibl y bydd achosion prin ble nad fyddwchchi yn gallu cael tri dyfynbris, megis mewn gwaith/gwasanaethau arbenigol iawn. Os ydych yn credu bod llai na 3 cyflenwr ar gael dylech gysylltu ag RPW Arlein cyn mynd i unrhyw gytundeb i ofyn am gyngor gan llai o gwmnïau.

Os nad yw'r gwaith yn arbenigol ond eich bod yn ei chael yn anodd i ddod o hyd i gyflenwyr sy'n barod i ddarparu dyfynbrisiau dylech gadw tystiolaeth fanwl o pwy yr ydych wedi gofyn am ddyfynbrisiau ganddynt, a phryd.

Er mai dim ond 3 dyfynbris sydd angen ichi ei gyflwyno, mae disgwyl ichi holi mwy na 3 cyflenwr os ydych yn aflwyddiannus gyda derbyn dyfynbrisiau.

### 2.6 Y Broses Ddethol

Mae'n rhaid ystyried y dyfynbrisiau yn deg ac mae'n rhaid nodi'r rheswm(rhesymau) dros ddewis un cyflenwr yn ysgrifenedig.

Rydym yn disgwyl ichi ddewis y dyfynbris rhataf. Os, mewn amgylchiadau arbennig, nad ydych yn defnyddio'r rhataf o'r tri dyfynbris cystadleuol mae'n **rhaid** ichi gynnig eglurhad ysgrifenedig yn rhoi amlinelliad o'r sail resymegol pam y gwnaethoch ddewis y cyflenwr yr ydych wedi ei ddewis. Efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn dewis peidio â thalu grant sy'n fwy na'r dyfynbris isaf.

## 2.7 Dogfennau

Mae'n **rhaidd** ichi gadw dogfennau y tendro cystadleuol gan ddefnyddio Cofnod Tendro Cystadleuol Llywodraeth Cymru.

Mae Templad Cofnod Tendro Cystadleuol i'w gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

## Adran 3 – Cywiriadau a Sancsiynau

**Rydych yn gyfrifol am sicrhau bod y broses dendro gystadleuol yn cael ei dilyn yn gywir, gyda'r ddogfennaeth lawn a bod y dogfennau ar gael drwy wneud cais amdanynt. Mae risg sylweddol y gellid adennill y grant yn llawn neu'n rhannol os na ddilynir y broses dendro gystadleuol yn gywir ac os na chaiff dogfennau ategol eu cadw.**

### 3.1 Gwiriadau Gweinyddol

Mae'n bosibl y gofynnir am dystiolaeth o'r prosesau tendro cystadleuol wrth werthuso ceisiadau a / neu brosesu hawliadau.

Yn ogystal, fel rhan o'r broses hawlio, bydd ymweliad gweinyddol â'r safle (gwiriad ar y safle) i sicrhau bod yr holl waith, y nwyddau a'r gwasanaethau a brynwyd wedi bodloni'r fanyleb dechnegol briodol a bod gofynion y broses dendro gystadleuol wedi'u bodloni.

### 3.2. Rheoli yn y Fan a'r Lle

Fel sy'n ofynnol gan reoliad y CE, caiff sampl o brosiectau eu dewis ar gyfer rheoli ychwanegol yn y fan a'r lle (Archwiliad).

Caiff Archwiliadau eu cwblhau gan Arolygiaeth Wledig Cymru, ac fel ymweliadau gweinyddol â safleoedd (gwiriadau yn y fan a'r lle) byddant yn cynnwys gwirio gwaith, nwyddau a gwasanaethau sydd wedi'u prynu.

Gallai eich prosiect gael ei ddewis ar gyfer archwiliad gan Swyddfa Archwilio Cymru, y CE neu Lys Archwilwyr Ewrop.

## Adran 4 – Caffael Cyhoeddus

Bu i [Gyfarwyddeb Caffael Cyhoeddus yr UE 2014/24/UE](#) a'r [Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015](#) sy'n eu gweithredu yn y DU bennu'r gyfraith ar gaffael cyhoeddus. Pwrpas hyn yw agor y farchnad caffael cyhoeddus a sicrhau bod nwyddau a gwasanaethau yn symud yn rhwydd o fewn yr UE.

Mae'n ofynnol i gyrff y sector cyhoeddus sy'n cael eu cynnwys yng Nghyfarwyddebau Caffael yr UE ddilyn eu rheolau a'u gweithdrefnau caffael sefydliadol eu hunain. Mae'r rheolau sylfaenol wedi'u hamlinellu isod, ond cewch y rheolau llawn ar [wefan y CE](#).

#### 4.1 Yn is na throthwy Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU)

Os nad yw gwerth y caffael arfaethedig dros drothwyon presennol [Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd](#) (OJEU), nid oes angen ichi ddilyn y gweithdrefnau manwl a amlinellir yn y [Cyfarwyddbau Caffael](#).

Gweler y tabl am fanylion isod y trothwyon OJEU.

Gwerth Caffael*	Gofyniad	Cam Gweithredu
£0 - £4,999	Un dyfynbris ysgrifenedig	Argymhellir defnyddio cyflenwyr sydd wedi cofrestru ar <a href="http://www.gwerthwchigymru.gov.wales">www.gwerthwchigymru.gov.wales</a>
£5,000 – £24,999	Tri dyfynbris ysgrifenedig	Argymhellir defnyddio cyflenwyr sydd wedi cofrestru ar <a href="http://www.gwerthwchigymru.gov.wales">www.gwerthwchigymru.gov.wales</a>

**\*Nodwch: nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys TAW**

#### 4.2 Yn uwch na throthwy Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU)

Ble y mae gwerth y caffael arfaethedig yn fwy na throthwyon presennol [Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd](#) (OJEU), mae angen ichi ddilyn y gweithdrefnau manwl sydd wedi'u nodi yn y [Cyfarwyddbau Caffael](#).

Gweler y tabl am fanylion uwchben trothwyon OJEU

Gwerth Caffael*	Gofyniad	Cam Gweithredu
£25,000 - £106,046 (Nwyddau a Gwasanaethau)	Cystadleuaeth lawn ac agored	Rhaid cyhoeddi gofynion drwy <a href="http://www.gwerthwchigymru.gov.wales">www.gwerthwchigymru.gov.wales</a> Gellir ceisio dyfynbrisiau drwy gysylltu'n uniongyrchol â chyflenwyr
<a href="#">£25,000 - £4,104,393</a> (Gwaith)	Cystadleuaeth lawn ac agored	Rhaid cyhoeddi gofynion drwy <a href="http://www.gwerthwchigymru.gov.wales">www.gwerthwchigymru.gov.wales</a> Gellir ceisio dyfynbrisiau drwy gysylltu'n uniongyrchol â chyflenwyr
£106,047 a mwy (Nwyddau a Gwasanaethau)	Cystadleuaeth lawn ac agored	Cyhoeddi'r gofyniad ledled Ewrop drwy gyfrwng <a href="http://www.gwerthwchigymru.gov.wales">www.gwerthwchigymru.gov.wales</a>
£4,104,394 a mwy (Gwaith)	Cystadleuaeth lawn ac agored	Cyhoeddi'r gofyniad ledled Ewrop drwy gyfrwng <a href="http://www.gwerthwchigymru.gov.wales">www.gwerthwchigymru.gov.wales</a>

**\*Mae Nwyddau a Gwasanaethau yn cyfeirio at unrhyw beth a brynwch ar wahân i [Waith Prosiect](#)**

**\*Nodwch: nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys TAW**

Fel Noddwr Prosiect, mae'n ofyniad cyfreithiol i hysbysebu eich cyfleoedd i dendro

Ewch i wefan [GwerthwchiGymru](#) a dilyn y canllawiau sydd wedi'u cyhoeddi (**ar gael unwaith y byddwch wedi cofrestru**) i ychwanegu hysbysiadau

1. Dylid cyhoeddi'r Hysbysiad Contract yn electronig drwy [GwerthwchiGymru](#).
2. Ni ddylai'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau fod cyn 45 niwrnod o'r diwrnod wedi anfon yr hysbysiad contract at OJEU (mae'n rhaid caniatáu terfyn amser hwy os nad yw'r Hysbysiad Contract wedi'i gyhoeddi yn electronig).
3. Mae'n rhaid i'r dogfennau Gwahoddiad i Dendro (ITT) gael eu hanfon at bob cwmni sy'n ymateb i hysbysiad y contract.
4. Mae'n rhaid i'r Gwahoddiad i Dendro gael ei anfon o fewn 6 niwrnod i dderbyn cais ar gyfer y dogfennau.
5. Os ydych wedi cyhoeddi Hysbysiad Gwybodaeth Ymlaen Llaw (PIN) yn unol â Rheoliad 11 o Hysbysiad Contractau Cyhoeddus 2006, yna mae'n rhaid lleihau y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau i 36 niwrnod (neu 22 diwrnod mewn achosion sydd wedi eu cyfiawnhau'n eithriadol).
6. Gall terfynau amser byrrach gael eu defnyddio os yw dogfennau ITT ar gael yn electronig.



## Atodiad A: Cyfarwyddebau Caffael

Mae'r holl deddfwriaeth berthnasol yn y DU sy'n gysylltiedig â chaffael ar gael ar [wefan Llywodraeth Cymru](#)

<b>Deddfwriaeth Ewropeaidd</b>	<b>Gweithredu yn y DU</b>
<p><b>Cyfarwyddeb Contractau Cyhoeddus 2014/24/UE</b></p> <p>Gweithdrefnau i ddyfarnu contractau gwaith cyhoeddus, contractau cyflenwi cyhoeddus a chontractau gwasanaethau cyhoeddus</p>	<p><b>Offeryn Statudol 2015 Rhif 102</b></p> <p>Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015</p>
<p><b>Cyfarwyddeb Contractau Cyfleustodau 2014/25/UE</b></p> <p>Gweithdrefnau endidau sy'n gweithredu yn y sectorau dŵr, ynni, trafnidiaeth a'r gwasanaeth post</p>	<p><b>Offeryn Statudol 2006 Rhif 6.</b></p> <p>Rheoliadau Contractau Cyfleustodau 2006 (gweler y diwygiadau isod)</p>
<p><b>Y Gyfarwyddeb Amddiffyn a Diogelwch 2009/81/CE</b></p> <p>Gweithdrefnau endidau sy'n gweithredu ym meysydd amddiffyn a diogelwch</p>	<p><b>Offeryn Statudol 2011 Rhif. 1848</b></p> <p>Rheoliad Contractau Cyhoeddus Amddiffyn a Diogelwch 2011</p>
<p><b>Cyfarwyddeb 2007 / 66 / Cyfarwyddeb Unioni Cam y CE</b></p> <p>Diwygio'r Gyfarwyddeb Unioni Cam presennol (89/665/EEC a 92/13EEC) i wella effeithiolrwydd gweithdrefnau adolygu sy'n gysylltiedig â dyfarnu contractau cyhoeddus.</p>	<p>Rheoliadau Contractau Cyhoeddus (Diwygio) 2009</p>
	<p>Mae Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2006 a Rheoliadau Contractau Cyfleustodau 2006 wedi'u diwygio fel a nodir isod:</p> <p>Rheoliadau Gwyngalchu Arian 2007</p> <p>Rheoliadau Contractau Cyhoeddus a Chyfleustodau (Diwygio) 2007</p> <p>Contractau Cyhoeddus a'r Contractau Cyfleustodau (Diwygio Gwasanaethau Post) 2008</p> <p>Rheoliadau y Contractau Cyhoeddus a'r Contractau Cyfleustodau (Diwygiadau Cod CPV) 2008</p> <p>Gorchymyn Deddf Llwgrwobrwyo 2010 (Diwygiadau Canlyniadol) 2011</p> <p>Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Diwygiadau Amrywiol) 2011</p>